

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 7 GORFFENNAF 2015

Preseanol

Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr

B Owen, W R Owen, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, M Thomas, G Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas, K Williams, C Williams, G Thomas, M Sarnacki

Cyflwyniad i'r Cyngor gan Gwyn Williams ar ran Clwb Rygbi

Dangosodd Gwyn lluniau o trip Tîm dan 14 y Clwb

Pwysleisiodd mae Clwb ydi Caernarfon nid casgliad o dimau

Nad ydynt yn codi tal aelodaeth i blant er mwyn sicrhau bod cyfle i bawb

Mae Gaernarfon yn un o ddau Clwb yn unig yn Gogledd Cymru sydd yn cynnig cyfleon i bob oedran

Mae Gwyn wedi bod yn hyfforddi'r tîm yma ers 6 mlynedd bellach ac wedi creu cynllun 5 mlynedd i'r tîm o safbwynt teithio gan gychwyn yn eithaf agos i adra yn Aberystwyth ac yn datblygu i Gaerdydd, Iwerddon a pinacl rŵan wrth fynd i Ffrainc.

Roedd ymgyrch codi arian wedi bodoli ers dwy flynedd i sicrhau bod y gost yn un rhesymol

Roedd 10 tîm yn chwarae yn yr ŵyl. Ar y noson gyntaf enillodd tîm Gaernarfon y cystadleuaeth tebyg i "The Voice" a diolch i Cyng Ann Hopcyn am eu dysgu cyn y daith

Enillodd y tîm wobwr chwarae teg yr ŵyl am eu ymddygiad ar y cae ac oddi ar

Roedd aelodau'r tîm yn falch iawn o rannu bathodyn y cyngor yr un a unigolyn o dim arall (ffordd da iawn i sicrhau bod nhw yn cyfathrebu a pobl eraill) ac mae'r clwb yn hynod ddiolchgar am hyn. Mi roedd nifer o dimau yn rhannu anrhegion tebyg yn nol, a chafwyd tei gan un tim a dymuna'r clwb anrhegu'r Maer a fo fel ffordd o ddiolch am gefnogaeth y

Cyngor . Diolchodd Y Maer i Gwyn o holl hyfforddwyr y clwb am ei waith arbennig gan ddymuno'n dda iddynt

1. Ymddiheuriadau

Cyng A Bohana, Cyng A Hopcyn, Cyng E Lovgreen

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Cyflwyno gwobrau Clwb Ieuencid
Dechrau ras feics Etape
Croesawu ymwelwyr Corinthian Cruise
Cadeirio Pwyllgor Canolfan Noddfa
Croesawu beicwyr Caerdydd/ Caernarfon
Croesawu ymwelwyr Corinthian Cruise
Clwb dartiau noson gwobrwyo
Cyflwyno gwobrau Sioe Gogledd Cymru
Sul y maer Dinbych

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen – cynllunio
B Owen – Cynllunio eitem 5
I C Thomas –cynllunio eitem 1 a 2
W R Owen – cynllunio eitem 3 ac hefyd Unllais

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 16 Mehefin 2015

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir gan ychwanegu un llinell i eitem 11 sef bod y Cyngor yn ail datgan ei barn bod angen i'r peilonau fod yn danddaearol

(cadarnhaodd y clerc mai dyna oedd wedi mynd allan yn y llythyr)

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C15/0357/14/CR **Cytuno**
Newid defnydd modurdy i far yn
gysylltiedig a'r tŷ tafarn a chodi
balconi ar y cefn ac addasu mynediad
cefn

The Castle Hotel, 33 Y Maes Caernarfon

2. C15/0353/14/LL **Cytuno**
Newid defnydd modurdy i far yn
gysylltiedig a'r tŷ tafarn a chodi
balconi ar y cefn ac addasu mynediad
cefn

The Castle Hotel, 33 Y Maes Caernarfon

3. C15/0404/14/LL **Cytuno**
Newidiadau i gais Rhif C13/0810/14/LL i gynnwys
man newidiadau ac estyniadau i'r adeilad fel y'i
ganiatawyd i galluogi arwynebedd llawr ar gyfer
yr unedau preswyl 2 wely gofal ychwanegol
a ganiatawyd eisoes cael eu defnyddio o'n
hyblyg i fyny i uchafswm o 16 lloftydd 'en-suite'
gwasanaethol (sydd yn gysylltiedig a'r cyfleuster
gofal nyrsio ychwanegol) ynghyd ac uchafswm
o 16 uned gofal preswyl ychwanegol hunan-gynhaliol/

Bryn Seiont Hospital, Pant Road, Caernarfon

4. C15/0618/14/LL **Cytuno**
Estyniad unllawr ynghyd a modurdy sengl
(cynllun diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd
o dan gais rhif C12/0049/14/LL

1 Tyddyn Pandy, Ffordd Llanbeblig, Caernarfon

5. C15/0573/14/LL **Cytuno**
Estyniad ochr llawr cyntaf

Hafle, Wellington Terrace, Caernarfon

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a cael y clerch i edrych i mewn i dynnu yr hen sieciau

9. PEG

1) Llyfryn Llwyddiannau (*ar y bwrdd*)

2) Llythyr gan y Cadeirydd

Penderfynwyd

Derbyn er Gwybodaeth

10. Unllais

Adroddiad o Bwyllgor Ardal

Cafwyd eglurhad bod proses partneriaeth Ogwen wedi bod yn un hir a chymerwyd 3 mlynedd i'w greu

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad a'r clerch i ymchwilio os fyddai modd gwneud rywbeth tebyg i Prosiect Hydro Bartneriaeth Ogwen yng Nghaernarfon

11. E- bost Sian Shakespeare

Ymgynghoriad ar ddyfodol gwasanaeth llyfrgell Gwynedd -

Porthmadog 15 Gorffennaf

Penderfynwyd

Cyng E Hughes a Cyng M Thomas i fynychu ar ran Y Cyngor

12. **Lightsource**

Cytundeb cymunedol

Rhoddodd y clerc ddiweddariad bod cwmni Kronos wedi gwerthu'r parc solar i Gwmni Lightsource a bod cytundeb newydd o flaen y Cyngor

Penderfynwyd

Danfon yr ru'n amodau yn nol a tro cynt sef os fydd y parc yn ehangu bod disgwyl mwy o arian ac bod disgwyl ryw gyfraniad am oes y parc nid am 10 mlynedd yn unig gan ddeall efallai fydd y cynnydd yn disgyn ac felly i'r taliad adlewyrchu hynny. Hefyd i rannu ein penderfyniad a Chyngor Felinheli i weld os ydyn nhw yn dymuno nodi ru'n amodau eto a danfon ar y cyd

13. **Cyngor Gwynedd**

Ymateb parthed Ras am Fywyd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. **Clwb Rygbi**

Rhaglen ymweliad Tîm Trelew. Nodwyd bod hwy yn chwilio am wirfoddolwyr i lletyau os yn bosib

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad . Cynigodd Cyng G Thomas dau oen ar gyfer y bwyd ac i bobl adael i'r clerc wybod os yn gallu lletya

15. **Ombwdsmon - Adroddiad Blynyddol 2014 / 2015**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

16. **Cylchlythyr CADW**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

17. **Adroddiad ar lafar gan Cyng. Cemlyn Williams**

Pâr: Carnifal

Nodwyd bod grŵp wedi cyfarfod ac yn dymuno ail ddechrau'r carnifal flwyddyn nesaf.

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a hysbysebu'r Grŵp bod well iddynt ei alw yn Wyl er mwyn denu grantiau

18. CTC

Adroddiad o'r cyfarfod diwethaf

Y rali ceir wedi cadarnhau Hydref 4ydd a bod angen mynd ati i neud y trefniadau arferol gan ei fod yn gorffen yng Nghaernarfon, ond angen 3 gwobr tro ma. Y cynhorau angen edrych ar ei yswiriant

Penderfynwyd

Derbyn y cynnwys a diolch am yr adroddiad

19. Cwestiynau

Oes posib i Cynghorwyr nodi dyddiadau Big Lunch yn eu dyddiaduron sef 19 Gorffennaf yn Maesincla a 20 tu allan i Tŷ Peblig?

Oes

Gorffennodd y cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd Dyddiad